THE BIG BANG

# 10 RHESWM GWYCH

## I DDOD YN WYDDONYDD NEU'N BEIRIANNYDD

## 1. DATBLYGU POPETH ISOD...

- **Aelodau artiffisial** a **brechiadau** yn erbyn afiechydon
- **Ffermydd gwynt** a **cherbydau trydan** i helpu achub y blaned
- Colur sy'n cyfateb yn awtomatig i arlliw'r croen
- **Llongau Gofod** ar gyfer twristiaid yn y dyfodol
- Ffabrigau clyfar gyda **thechnoleg ddigidol fewnol**
- **Uwchgyfrifiaduron** sy'n rhagweld effeithiau newid yn yr hinsawdd



## 2. GWEITHIO YN EICH HOFF DDIWYDIANT

O **fwyd, meddygaeth** ac **ynni adnewyddadwy i chwaraeon, hapchwarae** a **cherddoriaeth**

**Mae angen gwyddonwyr a pheirianwyr ym mhobman!**

## 3. GWNEUD GWAHANIAETH

**Helpwch i fynd i'r afael â rhai o heriau mwya'r byd**, fel datblygu pŵer adnewyddadwy, ymateb i drychinebau naturiol a gwella seiberddiogelwch.



## 4. ENILLWCH ARIAN GWYCH

Ar gyfartaledd, mae prentisiaid peirianneg yn **ennill bron ddwywaith** yr isafswm cyflog prentis cenedlaethol.

Mae cyflog cychwynnol ar gyfartaledd i bobl sydd â **graddau peirianneg a thechnoleg** yn uwch nag ar gyfer graddedigion eraill.

## 5. BOD Â GALW CYSON AMDANOCH

Mae angen pobl sydd â sgiliau **gwyddoniaeth, technoleg a pheirianneg** nawr ac yn y dyfodol, i arloesi ac ymateb i'n byd sy'n newid.



## 6. BOD Â DEWIS O YRFAOEDD Y DYFODOL

**Dal ynni'r llanw, dylunio robot, darganfod iachâd ar gyfer canser... neu wneud swydd sydd ddim hyd yn oed yn bodoli eto!**

Mae parhau gyda mathemateg a gwyddoniaeth – yn enwedig ffiseg – yn cadw'ch opsiynau ar agor cyhyd â phosibl ar gyfer swyddi mewn gwyddoniaeth, peirianneg, technoleg, y gyfraith, busnes, y gofod, pensaernïaeth a llawer mwy.



## 7. DEWISWCH LWYBR EICH HUN

Ewch i'r coleg, gwnewch brentisiaeth, cymerwch lefel T, ewch am radd prifysgol neu cyfunwch lwybrau gwahanol.

T LEVEL

## 8. TEITHIO'R BYD

**Gweithiwch mewn timau deinamig** gyda phobl o wahanol gefndiroedd, ar brosiectau cyffrous ledled y byd.

## 9. ENNILL PARCH

**Cewch eich cofio drwy hanes am eich gwaith** o ran dylunio strwythurau anhygoel, gwneud datblygiadau syfrdanol mewn technoleg, darganfod planedau neu nodi codau genetig hanfodol.



## 10. DYLUNIO, CREU AC ARLOESI

Gall pynciau fel dylunio a thechnoleg, celf a chyfrifiadura helpu i baratoi'r ffordd at yrfaoedd sy'n **chwyldroi'r ffordd rydym yn byw.**

**Dewch o hyd i wybodaeth am yrfaoedd mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg:**

**Peirianneg**
neonfutures.org.uk/green

**Bioleg**
rsb.org.uk/make-a-difference

**Cemeg**
edu.rsc.org/future-in-chemistry

**Ffiseg**
iop.org/careers-physics

**Mathemateg**
mathscareers.org.uk

neon
Brilliant Inspiration